**PENDERFYNIADAU'R cyfarfod hybrid y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 13 Tachwedd 2025**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol** : | Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd yn y Gadair)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, Euryn Morris, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams a Liz Wood (gadawodd y cyfarfod am 10.45 am)<br><br>Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg<br><br>**Aelodau Cyfetholedig**<br><br>Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig,<br>Ms Kathryn Seeney – Rhiant-lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd,<br>Ms Christina Williams – Rhiant-lywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY. |
| **Ymddiheuriadau**: | Y Cynghorwyr Pip O'Neill a Dylan Rees<br><br>Prif Weithredwr<br>Y Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo |
| **Hefyd yn bresennol**: | **Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion,<br>Y Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid |

(10.30 o'r gloch yb - 11.45 o'r gloch yb)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Dim un datganiad wedi'i dderbyn. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2025 yn gywir, yn amodol ar welliant nad oedd y Cynghorydd Fowlie yn codi cwestiwn yng Nghyngor Cymuned Aberffraw bod Menter Môn wedi gwerthu Cegin Llys Llewelyn i ariannu'r bwlch mewn pensiynau, ond cododd Cynghorydd Sir arall y mater.<br><br>**Pwyntiau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2025:-**<br><br>**Eitem 4 – Partneriaeth Strategol – Menter Môn**<br><br>**Cam gweithredu 1 –** Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd gweithio gyda Menter Môn ac Aelodau Lleol i gryfhau a ffurfioli'r broses, gan nodi meysydd gwella.<br><br>Yn dilyn trafodaethau gyda'r Prif Weithredwr, Arweinydd y Cyngor a Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn, codwyd y mater yng nghyfarfod Arweinwyr y Grŵp wedyn. Derbyniwyd bod angen rhannu gwybodaeth gydag Aelodau o'u Grŵp i wella dealltwriaeth o'r anghenion a'r cyfleoedd o fewn cymunedau lleol.<br><br>**Eitem 5 – Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn 2024/2025**<br><br>**Cam gweithredu 1** – Cynnwys y dangosfwrdd yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf i fesur a dangos cynnydd ac effaith prosiectau, gan gymharu'r perfformiad ar ddechrau a diwedd y flwyddyn ag Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn.<br><br>Mae'r Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol wedi cadarnhau y bydd y wybodaeth yn cael ei chynnwys, fel y nodwyd uchod, yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf.<br><br>**Cam gweithredu 2** – Diweddaru Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd ar 7 Tachwedd, 2025 mewn perthynas â'r gostyngiadau arfaethedig mewn gwasanaethau Therapi Galwedigaethol ledled yr Ynys oherwydd cyfyngiadau ariannu.<br>**CAMAU AR Y GWEILL**<br><br>**Cam gweithredu 3 –** Y Prif Weithredwr i ymgysylltu â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Deiliad Portffolio perthnasol i sicrhau bod pryderon ynghylch yr effaith ar y gostyngiadau arfaethedig i Wasanaethau |

| | |
|---|---|
| | Galwedigaethol mewn llawer o feddygfeydd ar Ynys Môn yn cael eu hadlewyrchu yn y broses ymgynghori. **CAMAU AR Y GWEILL** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Canllawiau gwella ysgolion : fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD :-**<br><br>• **Nodi goblygiadau'r canllawiau cenedlaethol a'r disgwyliadau ar awdurdodau lleol wrth gyfrannu at welliant ysgolion, yn enwedig rôl sgriwtini;**<br>• **Nodi swyddogaethau allweddol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (fel y gwaith craffu dynodedig ar faterion addysg) i ganolbwyntio ei waith craffu (drwy'r Panel Sgriwtini Addysg) ar fesur effaith y gefnogaeth a ddarperir i ysgolion gan y Gwasanaeth Dysgu.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adroddiad Cynnydd : Panel Sgriwtini Addysg** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod diwethaf o ran gwaith y Panel Sgriwtini Addysg.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/2026** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cytuno ar y fersiwn bresennol o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2025/2026, gan gynnwys y diwygiadau a nodwyd.** |